# Tymor yr Haf (i) 2018 — Blwyddyn 1 a 2 Mrs Williams a Mrs Rh. Hiley

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

## Thema'r hanner tymor yw: **Dewch i Forio!**

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!



### Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu

- Creu cornel chwarae byd bach 'Dewch i Forio' a mwynhau creu anturiaethau o bob math!
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, a dysgu sut i ysgrifennu **stori naratif**.
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

### Datblygiad Creadigol

- Dewis offer, technegau a deunyddiau addas i greu cwch.
- Canu a pherfformio ystod o ganeuon yn ymwneud â'r thema.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Rhaid i ni ei ddychwelyd ar ddydd Llun. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Blwyddyn 2)

### Datblygiad Mathemategol

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd, lluosi a rhannu.
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur cyn-hwysedd a datblygu ein sgiliau datrys problem.
- Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen.

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBYMCWilliams**
**@YGGBYMROwen**

### Addysg Grefyddol:

Dysgu gwerthfawrogi'r byd o'n cwmpas a thrafod ein cyfrifoldeb i ofalu am y byd.

Clywed straeon o'r Beibl am hanesion Iesu ar y môr.

### Sgiliau Cymhwysedd Digidol:

- Datblygu sgiliau codio.
- Creu a chynhyrchu llyfr electronig.

.

### Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

- Dysgu am rymoedd (gwthio, tynnu, arnofio a suddo);
- Dysgu am briodweddau gwahanol ddeunyddiau;
- Dysgu am sut i gyflawni prawf teg
- Dysgu am hanes môr-ladron enwog o Gymru a hanes mordeithiau enwog.

### Datblygiad Corfforol

- Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd ac ymarfer sgiliau athletau
- Datblygu sgiliau trin pêl
- Ymarfer sgiliau llawdrin-iol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.

### Datblygiad Personol a Chymdeithasol

- Datblygu dealltwriaeth o'r peryglon yn yr amgylchedd a sut i gadw'n ddiogel ar lan y môr
- Datblygu sgiliau dangos gofal a pharch at yr amgylchedd.